Cymunedau Bregus

Pwy sy'n rhedeg y Siopau Gwyddoniaeth?

Caiff brosiect y Siopau Gwyddoniaeth ei redeg gan Brifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru, Casnewydd, yn Ne-Ddwyrain Cymru. Mae'r prifysgolion yn gobeithio annog pobl Cymru i deimlo'n fwy cyffyrddus yn defnyddio eu gwasanaethau addysgol a gwasanaethau eraill.

Pwy sy'n talu am y Siopau Gwyddoniaeth?

Adran o Lywodraeth Cynulliad Cymru sy'n talu am y Siopau Gwyddoniaeth. Am y rheswm hwn, gallant gynnig gwasanaethau ymchwil am ddim neu am bris isel iawn i grwpiau cymunedol yng Nghymru. Mae cyllid ar gael i Siopau Gwyddoniaeth Cymru gan Gyngor Ariannu Addysg Uwch Cymru (HEFCW) am 2006-2008.

Gwirfoddolwyr yn helpu pobl leol i ddysgu ynglŷn â bywyd gwyllt.

SIOPAU GWYDDONIAETH CYMRU
SCIENCE • SHOPS • WALES
scishopw@glam.ac.uk • 0845 • 841 • 3545
http://www.science shopswales.org.uk

Ble wnaf i ffeindio siop wyddoniaeth?

Mae'r brif ganolfan ym Mhrifysgol Morgannwg yn Nhrefforest ac mae yna dair siop wyddoniaeth leol:

* Eglwys Sant Joseff, Teras Sant Joseff, Cwmaman
* Capel Trerhondda, Y Strand, Glyn-rhedynnog
* Gates Morgannwg, 121 Y Stryd Fawr, Merthyr Tudful.

Mwy o wybodaeth?

Os oes gennych ddiddordeb mewn gwirfoddoli, galwch ni ar 0845 841 3545 (graddfa galwad leol) neu ebostio scishopw@glam.ac.uk

Gallwch hefyd alw heibio yn un o'n siopau a siarad ag un o'r staff yn un-iongyrchol.

Am ragor o wybodaeth ar Siopau Gwyddoniaeth Cymru ewch at ein gwefan: www.scienceshopswales.org.uk

Am ragor o wybodaeth ar waith y siopau gwyddoniaeth ar draws y byd, ewch at wefan Living Knowledge: www.scienceshops.org

University of Wales, Newport

Prifysgol Cymru, Casnewydd

GWIRFODDOLI GYDA SIOPAU GWYDDONIAETH CYMRU

Gwybodaeth at wasanaeth y gymuned

SIOPAU GWYDDONIAETH CYMRU
SCIENCE • SHOPS • WALES
scishopw@glam.ac.uk • 0845 • 841 • 3545
http://www.science shopswales.org.uk

Beth yw Siop Wyddoniaeth?

Nid y math arferol o siop yw Siop Wyddoniaeth. Unedau bach mewn cy-munedau lleol yw rhain sydd yn gwneud ymchwil gwyddonol ar gyfer grwpiau cy-munedol. Mae nifer ohonynt yn bodoli eisoes mewn gwledydd ar draws Ewrop a gweddill y byd.

Pa fath o broblemau fedr Siop Wyddoniaeth eu taclo?

Gall 'gwyddoniaeth' olygu bron unrhyw bwnc cyn belled ag y gallwn ddefnyddio ymagwedd resymegol. Gallwn wneud prosiectau ar bynciau megis yr amgyl-chedd, iechyd, problemau cymdeithasol, neu hyd yn oed hanes a'r gyfraith.

Pwy fedr wirfoddoli gyda Siopau Gwyddoniaeth?

Rydym yn croesawu cynigion gan bobl o wahanol gefndiroedd a phrofiadau bywyd, sydd â diddordeb mewn helpu eu cymuned. Bydd gan rai pobl efallai brofiad o wneud ymchwil, ond gan eraill ddim. Beth bynnag fo'r rôl wnewch chi ei dderbyn, fe dderbyniwch hyfforddiant a chefnogaeth lawn.

Pa fath o dasgau fedrwn i eu cyflawni o wirfoddoli gyda Siopau Gwyddoniaeth?

Gallech weithio mewn tîm yn helpu i weithredu prosiectau ymchwil. Gallech helpu gyda darparu digwyddiadau a hyfforddiant Siopau Gwyddoniaeth, neu gallech chwarae rhan mewn busnes pob dydd un o'n Siopau Gwyddoniaeth

Enghreifftiau o wirfoddoli gyda Siopau Gwyddoniaeth

* Helpu pobl leol i gyflawni archwiliad bioamrywiaeth
* Helpu gyda gweithgareddau gwyddonol hwyliog yn ffeiriau a gŵyliau
* Cydweithio ag elusen leol i dyfu llysiau organig

SIOPAU GWYDDONIAETH CYMRU
SCIENCE • SHOPS • WALES
scishopw@glam.ac.uk • 0845 • 841 • 3545
http://www.science shops wales.org.uk

Gwasanaethu'r Cymuned
Cymunedau Bregus

Sut byddwn i'n elwa?

Yn Siopau Gwyddoniaeth Cymru rydym am i'n holl wirfoddolwyr elwa o weithio gyda ni. Fe dderbyniwch hyfforddiant, y cyfle i ennill cymwysterau ac i fynd ymlaen i ddysgu pellach. Byddwch yn cydweithio â thîm o bobl gyfeillgar a chefnogol. Fe ddysgwch sgiliau, gwybodaeth a hyder fydd yn eich helpu yn y dyfodol, pa lwybr bynnag y dewiswch chi. Byddwch hefyd yn gwasanaethu eich cymuned – yn 'rhoi rywbeth nôl.'

Sut ydw i'n gwirfoddoli?

Y cam cyntaf yw llenwi ffurflen gais. (Gallwn ni eich helpu gyda hyn). Yna fe gewch gyfweliad byr gydag aelod o dîm Siopau Gwyddoniaeth. Fe rown wybod ichi mor fuan â phosibl os gallwn ddefnyddio eich gwasanaeth bryd hynny. Os byddwch yn llwyddiannus, gallem ofyn ichi wneud cais am wiriad o gofnod troseddol. Fe gadwn eich manylion yn ddiogel ac yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data.

A fydd Siopau Gwyddoniaeth yn talu fy nhreuliau?

Byddwn – fe wnawn ni ad-dalu cost eich teithiau bws neu drên i'h leoliad. Os teithiwch chi mewn car, fe rown ni 40c y filltir yn ôl ichi.

Ym mha ffordd arall y cefnogir gwirfoddolwyr?

Fe gewch sefydliad a hyfforddiant cyflawn. Fe gewch y cyfle i gyflawni modiwl sylfaenol gyda Phrifysgol Morgannwg. Fe ddysgwch am waith y Siopau Gwyddoniaeth. Bydd y sefydliad yn eich dysgu am eich hawliau a chyfrifoldebau a sut i weithio mor saff â phosibl. Penodir Swyddog Datblygu Siopau Gwyddoniaeth i'ch arwain. Gyda'ch gilydd, fe luniwch gytundeb yn pennu eich rôl a'ch tasgau. O leiaf unwaith y mis, cewch gyfarfod â'ch swyddog i drafod cynnydd ac unrhyw faterion sydd yn codi gennych.

Gwirfoddol-wyr yn helpu i redeg digwyddiadau mewn ffeiriau lleol.

SIOPAU GWYDDONIAETH CYMRU
SCIENCE • SHOPS • WALES
scishopw@glam.ac.uk • 0845 • 841 • 3545
http://www.science shops wales.org.uk